

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD BRYN 14 TACHWEDD 2022
7.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, June Jones, Bethan Gritten, Siân Cwper

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

3. Cais Cynllunio Garreg Frech

Cafodd y cyfarfod yma ei gynnal oherwydd bod cais cynllunio ADRA i godi tai yng Ngarreg Frech bellach wedi ei gyflwyno. Mae angen cynnig sylwadau ar y cais erbyn 30 Tachwedd 2022.

Cytunwyd ar yr angen i drefnu sesiwn galw i mewn efo'r cyhoedd er mwyn trafod y cais ac i wneud hynny brynhawn Iau 24 Tachwedd 2022, yn Y Ganolfan, Llanfrothen.

Y bwriad fyddai agor Y Ganolfan erbyn 2 y prynhawn fel bod y cyhoedd yn medru gweld copïau mwy o faint o'r cynlluniau, cynnal cyfarfod safle yng Ngarreg Frech am 14:45 ac yna cyfarfod fel cyngor cymuned ar ddiwedd y diwrnod tua 6 yr hwyr er mwyn trafod sylwadau'r cyngor cymuned i'r cais cynllunio.

4. Unrhyw Fater Arall

Dim

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 24 Tachwedd 2022